

Darpariaeth Gyfnod Sylfaen ar gyfer plant tair a phedair oed: Canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru



Canllawiau

Dogfen ganllawiau: rhif 233/2018

Dyddiad cyhoeddi: Medi 2018

Darpariaeth Gyfnod Sylfaen ar gyfer plant tair a phedair oed: Canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru

Cynulleidfa

Awdurdodau lleol; consortia rhanbarthol; darparwyr meithrin y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau ac ysgolion nas cynhelir; cyrff ambarél gofal plant.

Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn nodi dyletswyddau awdurdod lleol o dan adran 118 y Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 i sicrhau darpariaeth addysg feithrin ddigonol ar gyfer eu hardal a'u cynorthwyo i ddarparu addysg Cyfnod Sylfaen (y cyferir ati yn y ddogfen hon fel darpariaeth feithrin y Cyfnod Sylfaen) cyson o ansawdd da cyson ar gyfer plant tair a phedair oed yng Nghymru.

Camau i'w cymryd

Mae'n rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod eu dyletswyddau statudol a nodir yn y ddogfen hon yn cael eu rhoi ar waith.

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:

Yr Is-adran Cwricwlwm

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

e-bost: foundationphaseinfo@llyw.cymru

 [@LIC_Addysg](https://twitter.com/LIC_Addysg)

 [Facebook/AddysgCymru](https://www.facebook.com/AddysgCymru)

Copïau ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn llyw.cymru/dysgu

Cynnwys

1. Gair am y canllawiau hyn	2
2. Cefndir	3
3. Cynllunio a chynnig darpariaeth meithrin y Cyfnod Sylfaen	4
4. Hyblygrwydd a dewis i rieni	5
5. Cymarebau	7
6. Cyllid	7
7. Codi tâl	7
8. Y Cynnig Gofal Plant ar gyfer Cymru	8
9. Y camau nesaf	9

1. Gair am y canllawiau hyn

Diben

- 1.1 Diben y canllawiau hyn yw cynorthwyo awdurdodau lleol yng Nghymru i arfer eu dyletswydd i sicrhau darpariaeth Meithrin y Cyfnod Sylfaen (MCS) cyson o ansawdd da ar gyfer plant 3 a 4 oed yn eu hardal. Mae'r canllawiau hyn yn cymryd lle *Cylchlythyr 7/99 y Swyddfa Gartref - Canllawiau ar gyfer Partneriaethau Datblygu Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant Lleol yng Nghymru*. Mae'n cynnwys canllawiau statudol ac anstatudol.
- 1.2 Darpariaeth MCS yw'r addysg ran-amser ar gyfer plant 3 a 4 oed cyn iddynt ddechrau addysg orfodol mewn ysgolion yn 5 oed. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu lle MCS o'r tymor ar ôl pen-blwydd y plentyn yn 3 oed. Bydd rhai plant yn derbyn pum tymor, rhai yn derbyn pedwar tymor a rhai yn derbyn tri thymor, yn dibynnu ar eu dyddiad geni.
- 1.3 At ddibenion adrodd, rydym yn cyfeirio at y ddau dymor cyntaf fel MCS1 a'r tri tymor canlynol fel MCS2.

O dan ba ddeddfwriaeth y cyhoeddir y canllawiau hyn?

- 1.4 Cyhoeddir y **canllawiau statudol** o dan adran 118(2)(b) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 ("Deddf 1998"). Mae adran 118 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau darpariaeth addysg feithrin ran-amser a llawn-amser ddigonol ar gyfer plant yn eu hardal nad ydynt wedi dod i oedran ysgol orfodol neu oedran a ragnodir mewn Rheoliadau gan Weinidogion Cymru. Yn unol â hynny, mae Rheoliadau Addysg (Addysg Feithrin a Chynlluniau Datblygu Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant) (Cymru) 2003¹ (fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Addysg (Addysg Feithrin a Chynlluniau Datblygu Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant) (Cymru) (Diwygio) 2005)² yn cael eu gwneud o dan adran 118 uchod ac yn nodi'r gofyniad i ddarparu lle meithrin ar ôl pen-blwydd plentyn yn 3 oed.
- 1.5 Wrth gyfeirio at addysg ran-amser rydym yn golygu o leiaf 10 awr yr wythnos yn ystod tymhorau ysgol.
- 1.6 Mae'r **canllawiau anstatudol** yn cael eu cyhoeddi o dan adran 10 o Ddeddf Addysg 1996. Mae'r adran hon yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i hyrwyddo addysg pobl yng Nghymru.

¹ [Rheoliadau Addysg \(Addysg Feithrin a Chynlluniau Datblygu Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant\) \(Cymru\) 2003](#)

² [Reoliadau Addysg \(Addysg Feithrin a Chynlluniau Datblygu Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant\) \(Cymru\) \(Diwygio\) 2005](#)

2. Cefndir

- 2.1 Y Cyfnod Sylfaen yw'r cwricwlwm statudol datblygiadol ar gyfer plant 3 i 7 oed yng Nghymru. Mae'n seiliedig ar yr egwyddor y dylai darpariaeth addysg y blynyddoedd cynnar gynnig sylfaen gadarn ar gyfer dysgu yn y dyfodol drwy gwricwlwm sy'n ddatblygiadol briodol. Mae'n dod â mwy o gysondeb a pharhad i addysg plant mewn cyfnod hollbwysig yn eu datblygiad.
- 2.2 Mae'r Cyfnod Sylfaen yn rhoi'r pwys mwyaf ar ddysgu plant drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau ymarferol. Bydd plant ifanc yn cael cyfleoedd i ennill profiad ymarferol drwy chwarae a chyfranogiad gweithredol yn hytrach na thrwy addysg fwy ffurfiol a chwblhau ymarferion mewn llyfrau. Mae'n annog plant i fod yn greadigol, i ddefnyddio'u dychymyg ac i gael hwyl ac mae'n sicrhau bod y dysgu'n canolbwyntio ar y plentyn.
- 2.3 Mae plant yn cael mwy o gyfleoedd i archwilio'r byd o'u cwmpas a deall sut mae pethau'n gweithio drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau ymarferol sy'n berthnasol i'w cyfnod datblygiadol. Maent yn cael eu herio gyda chwestiynau penagored ac yn cael cyfleoedd i archwilio a rhannu eu syniadau ar gyfer datrys problemau.
- 2.4 Mae'r canllawiau hyn yn cyfeirio at yr elfen o'r Cyfnod Sylfaen ar gyfer plant 3 a 4 oed, neu ddarpariaeth Meithrin y Cyfnod Sylfaen (MCS), sy'n rhan bwysig o strategaeth addysg Llywodraeth Cymru – *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl* (<https://gov.wales/topics/educationandskills/?skip=1&lang=cy>) – ac sydd hefyd yn ffurfio rhan o'r Cynnig Gofal Plant ar gyfer Cymru³.
- 2.5 Bydd disgwyl i bob ysgol a lleoliad sy'n cynnig darpariaeth MCS gydymffurfio â'r Fframwaith y Cyfnod Sylfaen (<https://beta.llyw.cymru/fframwaith-y-cyfnod-sylfaen>). Gellir lawrlwytho'r Fframwaith a deunydd hyfforddi o wefan Llywodraeth Cymru yn <https://beta.llyw.cymru/cwricwlwm-cyfredol>.
- 2.6 Mae Fframwaith y Cyfnod Sylfaen yn nodi'r cwricwlwm a'r deilliannau. Mae'n canolbwyntio ar ddysgu arbrofol, cyfranogiad gweithredol a datblygu'r canlynol ym mhob plentyn:
- sgiliau a dealltwriaeth
 - llesiant personol, cymdeithasol, emosiynol, corfforol a deallusol er mwyn datblygu'r plentyn cyfan
 - agweddau cadarnhaol ar ddysgu er mwyn sicrhau eu bod yn mwynhau ac am ddal ati
 - hunanhyder i arbrofi, ymchwilio, dysgu pethau newydd a meithrin cysylltiadau newydd
 - sgiliau creadigol, mynegiannol ac arsylwi i annog eu datblygiad fel unigolion gyda gwahanol ffyrdd o ymateb i brofiadau
 - gweithgareddau yn yr awyr agored lle byddant yn cael profiad ymarferol o ddatrys problemau go iawn a dysgu am gadwraeth a chynaliadwyedd.

³ Gweler Adran 8.

3. Cynllunio a chynnig darpariaeth meithrin y Cyfnod Sylfaen

- 3.1 Mae'r adran hon yn darparu canllawiau statudol yn unol ag adran 118(2)(b) o Ddeddf 1998. Gan hynny, mae'n rhaid i awdurdodau lleol ei hystyried. Er mwyn i awdurdod lleol fodloni ei ddyletswydd i sicrhau addysg feithrin ddigonol ar gyfer plant yn ei ardal, mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod yn rhaid iddo sicrhau o leiaf 10 awr yr wythnos o ddarpariaeth MCS naill ai mewn lleoliad a gynhelir a/neu leoliad nas cynhelir yn ystod tymhorau ysgol.
- 3.2 Dylai awdurdodau lleol **wneud trefniadau i sicrhau bod o leiaf 10 awr yr wythnos o ddarpariaeth MCS yn cael eu darparu:**
- am yr un nifer o wythnosau â'r flwyddyn ysgol arferol (h.y. 39 wythnos), ac
 - mewn **lleoliad a gynhelir** fel meithrinfa yn yr ysgol a/neu **leoliad nas cynhelir** fel meithrinfa ddydd, cylch chwarae, Cylch Meithrin neu warchodwr plant, gan sicrhau hyblygrwydd a hygyrchedd i rieni.
- 3.3 Wrth **gynllunio a chynnig** darpariaeth, dylai awdurdodau lleol:
- gynllunio'n effeithiol ar gyfer darparu digon o leoedd MCS o ansawdd uchel i'w cynnig i riant pob plentyn cymwys
 - ystyried yr angen i weithio mewn partneriaeth gyda'r sector nas cynhelir a'r sector a gynhelir i sicrhau'r ddarpariaeth fwyaf priodol
 - sicrhau bod lleoedd MCS ar gael o fewn pellter teithio rhesymol i gartref plentyn os mai dyma dewis y teulu (gan gynnwys trefniadau trawsffiniol posibl)
 - sicrhau bod digon o ddarpariaeth Gymraeg ar gael
 - sicrhau bod gan y plant hynny sydd ag Anghenion Addysgol Arbennig fynediad at ddarpariaeth MCS addas
 - gweithio gyda darparwyr mewn lleoliadau ac ysgolion i sicrhau eu bod yn ymwybodol o fanteision a gofynion darpariaeth MCS
 - darparu gwybodaeth, cyngor a hyfforddiant i ddarparwyr er mwyn sicrhau darpariaeth MCS o ansawdd da a phontio effeithiol rhwng lleoliadau ac ysgolion i blant
 - darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i rieni mewn perthynas â darpariaeth MCS a nodi'r manteision pe bai eu plant yn derbyn lle MCS a gyllidir gan y llywodraeth
 - egluro pa ddarpariaeth sydd ar gael i rieni yn eu hardal a darparu cymorth i rieni ddewis darpariaeth
 - ystyried, drwy eu Hasesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant, y rhwystrau i ddarpariaeth hyblyg gan ddarparwyr a nodi ffyrdd o sicrhau bod darpariaeth yn cefnogi dewis rhieni
 - ystyried, drwy eu Hasesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant, yr hyn sy'n rhwystro rhieni/plant rhag gallu manteisio ar ddarpariaeth MCS a chwilio am ffyrdd o wella hyblygrwydd ac arloesedd
 - monitro defnydd ac ansawdd y gwasanaeth, ac ymyrryd i sicrhau ansawdd os a phan fo hynny'n briodol
 - addasu'r ddarpariaeth er mwyn cymryd i ystyriaeth y Cynnig Gofal Plant, gan sicrhau bod darpariaeth MCS yn cyd-fynd â gofal plant lleol fel bod rhieni'n gallu defnyddio'r 30 awr llawn.

4. Hyblygrwydd a dewis i rieni

- 4.1 Er mwyn galluogi i gynifer o blant cymwys â phosibl fanteisio ar ddarpariaeth MCS mewn lleoliad a gynhelir neu leoliad nas cynhelir, dylai awdurdodau lleol a darparwyr sicrhau bod darpariaeth yn cael ei chynnig yn hyblyg i ddiwallu anghenion teuluoedd. Yn ôl tystiolaeth, mae'r ffordd y caiff y ddarpariaeth bresennol ei darparu ar hyn o bryd yng Nghymru yn gallu bod yn 'anhyblyg' gan atal rhai teuluoedd rhag manteisio ar eu hawliau.
- 4.2 Un o'r prif rwystrau a fynegwyd gan rieni yw sut y rhennir y 10 awr yr wythnos ar draws pedwar neu bum diwrnod. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos rhieni sy'n gweithio a rheini sydd mewn addysg a hyfforddiant. Nid yw Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i gynnig darpariaeth MCS am nifer penodol o oriau dros nifer penodol o ddyddiau. Yn hytrach, rydym yn disgwyl i awdurdodau lleol ystyried modelau hyblyg a allai ddileu'r rhwystrau sy'n wynebu rhai rhieni sy'n ceisio manteisio ar ddarpariaeth MCS.
- 4.3 Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod cymaint â phosibl o hyblygrwydd a hefyd dewis i rieni o ran y math o leoliadau sydd ar gael er mwyn sicrhau bod plentyn yn gallu cael mynediad at y ddarpariaeth fwyaf addas, naill ai mewn lleoliad a gynhelir neu leoliad nas cynhelir, yn yr ardal berthnasol. Wrth gynllunio ar gyfer hyn, dylid ystyried y materion ymarferol sy'n ymwneud â mynediad at ddarpariaeth MCS i rieni a fydd angen darpariaeth gofleidiol, rhieni sy'n gweithio, rhieni sy'n chwilio am waith neu gyfleoedd hyfforddi, aelwydydd di-waith, teuluoedd incwm isel, teuluoedd unig rieni, teuluoedd o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig a theuluoedd â phlant sydd ag anghenion addysgol arbennig neu anabled.
- 4.4 Bydd rhai rhieni yn dymuno i'w plant ddefnyddio eu lle MCS mewn ardal awdurdod lleol gwahanol. Wrth gynnal eu hasesiad o ddarpariaeth, dylai awdurdodau lleol ystyried anghenion y rheini sydd am ddefnyddio darpariaeth MCS y tu allan i'w hardal yn ogystal â'r rheini sy'n teithio i'w hardal i fanteisio ar y ddarpariaeth. Anogir awdurdodau lleol i gydweithio ag awdurdodau lleol cyfagos i hwyluso hyn.
- 4.5 Bydd Llywodraeth Cymru'n helpu awdurdodau lleol drwy gyhoeddi deunyddiau cymorth yn gynnar yn 2019, gan gynnwys astudiaethau achos ar fodelau amrywiol ar gyfer cynnig darpariaeth MCS. Byddant yn amlinellu dulliau cydweithredol a hyblyg o gynnig darpariaeth MCS, gan adeiladu ar Raglenni Peilot Hyblygrwydd y Cyfnod Sylfaen (<https://gov.wales/docs/caecd/research/2016/161208-evaluation-foundation-phase-flexibility-pilot-scheme-cy.pdf>)⁴, a modelau rydym eisoes wedi'u gweld yng Nghymru, ac yn nodi'r hyn a ddysgwyd o wledydd eraill am fodelau arloesol a allai weithio'n dda yng Nghymru. Byddant hefyd yn darparu enghreifftiau o sut y llwyddwyd i gyd-leoli a sut mae hynny'n cefnogi dewis rhieni o ran darpariaeth, a bydd yn ystyried sut mae'r dulliau hyn yn gweithio ochr yn ochr â'r broses o weithredu'r Cynnig Gofal Plant.

⁴Roedd y rhaglenni peilot yn ystyried gwahanol fodelau ar gyfer darpariaeth MCS a gofal plant h.y. darpariaeth a rennir, oriau anghymdeithasol, darpariaeth estynedig, darpariaeth nad yw'n ystod y tymor, darpariaeth diwrnod llawn, a mynediad hamddenol.

- 4.6 Mae eisoes yn ofynnol⁵ i awdurdodau lleol yng Nghymru sefydlu a chynnal gwasanaeth sy'n darparu ystod eang o wybodaeth, cyngor a chymorth i rieni a darpar rieni, gan gynnwys gwybodaeth am ofal plant a gwasanaethau cysylltiedig ar gyfer plant a phobl ifanc ag anabledd. Dylai awdurdodau ddarparu gwybodaeth i rieni a darpar rieni er mwyn:
- eu hannog i fanteisio ar hawl eu plentyn i ddarpariaeth MCS⁶
 - eu helpu i ddeall pa ddarpariaeth sydd ar gael mewn lleoliadau a gynhelir neu leoliadau nas cynhelir, gan gynnwys darpariaeth cyfrwng Cymraeg, er mwyn galluogi rhieni i ddewis yr hyn sy'n gweddu i'w teulu
 - eu helpu i ddeall pa ofal cofleidiol sydd ar gael
 - eu helpu i ddeall beth arall y gallant ei ddefnyddio h.y. i'w galluogi i fanteisio ar y Cynnig Gofal Plant cyfan.
- 4.7 Awgryma tystiolaeth bod dulliau amrywiol yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd i hyrwyddo darpariaeth MCS, gan gynnwys gwefannau awdurdodau lleol a/neu Wasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd a chyfryngau cymdeithasol. Mae ansawdd a hygyrchedd gwybodaeth yn amrywio'n fawr ledled Cymru ac mae rhieni wedi dweud bod yr hyn sydd ar gael yn amal yn eu drysu. Mae'n bwysig bod yr wybodaeth yn addas ar gyfer y gynulleidfa, ac felly mae angen osgoi defnyddio jargon a sicrhau ei bod yn glir ar gyfer rheini.
- 4.8 Dylid creu cysylltiadau agos rhwng addysg ac ymarferwyr eraill sy'n gweithio gyda theuluoedd sydd â phlant ifanc, fel Dechrau'n Deg a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae gan ymwelwyr iechyd swyddogaeth allweddol o ran cyrraedd teuluoedd â phlant ifanc. Mae'n bwysig eu bod yn ymwybodol o'u hawl a manteision darpariaeth MCS er mwyn iddynt allu rhannu'r wybodaeth â theuluoedd. Mae hyn yn arbennig o wir o ran teuluoedd Dechrau'n Deg a allai drosglwyddo i ddarpariaeth MCS yn ddi-dor⁷ pan fydd darpariaeth gofal plant Dechrau'n Deg y plentyn wedi dod i ben.

⁵Adran 27 o Ddeddf Gofal plant 2006. 21).

⁶ Darpariaeth feithrin y Cyfnod Sylfaen: canllaw i rieni a gofalwyr (<https://beta.llyw.cymru/cyfnod-sylfaen-meithrin-canllaw-ar-gyfer-rhieni-gofalwyr>)

⁷Yn ôl canllawiau Dechrau'n Deg, mae hawl plentyn i ofal plant a ariennir drwy'r rhaglen yn dod i ben ar ddiwedd y tymor y mae'r plentyn yn troi'n dair oed. Mae hawl plentyn i ddarpariaeth MCS yn cychwyn ar ddechrau'r tymor nesaf ar ôl pen-blwydd y plentyn yn 3 oed. Felly, byddai'r bwch rhwng diwedd Dechrau'n Deg a dechrau'r Cyfnod Sylfaen yn ychydig wythnosau ar y mwyaf.

5. Cymarebau

- 5.1 Mae'r Grant Gwella Addysg yn darparu cymorth ariannol i ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia addysg rhanbarthol i wella deilliannau addysg i bob dysgwr. Mae'n rhaid defnyddio'r cyllid Grant Gwella Addysg i gefnogi'r gofyniad i sicrhau cymarebau staff i ddysgwyr (cymarebau staff i ddysgwyr 1:8 wrth ddarparu darpariaeth MCS i blant 3 a 4 oed) fel rhan o ddarpariaeth cwricwlwm Cyfnod Sylfaen o ansawdd uchel ac effeithiol.
- 5.2 Yn ogystal, mae'n **ofynnol** i ddarparwyr MCS gydymffurfio â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir (<https://arolygiaethgofal.cymru/sites/default/files/2018-01/160411regchildcarecy.pdf>), sy'n datgan cymarebau staffio gofynnol ar gyfer lleoliadau nas cynhelir, gan gynnwys gwarchodwyr plant.

6. Cyllid

- 6.1 Gellir defnyddio'r Grant Gwella Addysg hefyd i helpu ymarferwyr Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau nas cynhelir i gynnig darpariaeth MCS o ansawdd uchel.
- 6.2 Yn ogystal â'r Grant Gwella Addysg, darperir cyllid i gefnogi rôl awdurdodau lleol o ran sicrhau darpariaeth MCS drwy'r Grant Cymorth Refeniw hefyd. Ar hyn o bryd, yr awdurdod lleol sy'n penderfynu ar y swm a delir yn uniongyrchol i ddarparwyr ar gyfer lleoedd MCS, ac mae'r cyllid yn amrywio'n sylweddol nid yn unig rhwng awdurdodau lleol unigol ond hefyd rhwng lleoliadau a gynhelir a lleoliadau nas cynhelir.
- 6.3 Nid yw Llywodraeth Cymru wedi sefydlu cyfradd fesul awr ofynnol genedlaethol eto ar gyfer pob plentyn sy'n derbyn darpariaeth FCS. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau bod darpariaeth o ansawdd ar gyfer ein plant ieuengaf gyda staff dawnus a galluog, rydym yn annog awdurdodau lleol i fuddsoddi'n deg yn y maes hwn a darparu'r hyfforddiant angenrheidiol.

7. Codi tâl

- 7.1 Cynghorir awdurdodau lleol na ddylai darparwyr, dan unrhyw amgylchiadau, godi tâl ar rieni am ddarpariaeth MCS a gyllidir gan y llywodraeth.
- 7.2 Fodd bynnag, ni fwriedir i'r cyllid dalu costau oriau/gwasanaethau ychwanegol, prydu na deunyddiau traul eraill. Dylai awdurdodau sicrhau bod darparwyr yn gwbl eglur ynghylch unrhyw daliadau ychwanegol a bod rhieni'n deall beth yw darpariaeth MCS a gyllidir gan y llywodraeth ac fel arall.

8. Y Cynnig Gofal Plant ar gyfer Cymru

- 8.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddarparu **30 awr o addysg gynnar a gofal plant** a ariennir gan y llywodraeth ar gyfer plant 3 a 4 oed i rieni sy'n gweithio ac sy'n gymwys, a hynny am hyd at 48 wythnos y flwyddyn. Mae'r Cynnig Gofal Plant yn cael ei dreialu ar hyn o bryd, gan gynnwys sut mae darpariaeth MCS a gofal plant yn cyd-fynd â'i gilydd, cyn y caiff ei gyflwyno ar draws Cymru o fis Medi 2020.
- 8.2 Prif nodau polisi'r Cynnig Gofal Plant yw:
- galluogi mwy o rieni, yn enwedig mamau, i ddychwelyd i'r gwaith
 - cynyddu incwm gwario pobl sy'n gweithio, a helpu i ddileu tlodi ar gyfer pobl mewn swyddi sy'n talu cyflogau isel
 - helpu plant i ddatblygu ac i fod yn barod ar gyfer yr ysgol.
- 8.3 At ddibenion y Cynnig Gofal Plant, mae 'addysg gynnar' yn cyfeirio at ddarpariaeth MCS fel y nodir yn y canllaw hwn. Yn ystod y tymor ysgol (39 wythnos y flwyddyn), bydd darpariaeth MCS yn rhan o'r 30 awr sydd wedi'u cynnwys yn y cynnig. Felly, mae'r Cynnig Gofal Plant yn berthnasol iawn i'r canllawiau hyn a dylid ei ystyried ochr yn ochr â'r broses o weithredu'r Cynnig yn lleol er mwyn sicrhau bod plant yn gallu manteisio ar y Cynnig llawn.
- 8.4 At ddibenion y Cynnig Gofal Plant, mae 'gofal plant' yn cyfeirio at ofal plant a reoleiddir, sy'n cwmpasu ystod eang o wahanol fathau o ddarpariaeth, sy'n ddarostyngedig i Safonau Gofynnol Cenedlaethol ac yn cael ei reoleiddio a'i arolygu gan Arolygiaeth Gofal Cymru, neu Ofsted os ydynt wedi'u lleoli yn Lloegr.
- 8.5 Bydd yr union raniad fesul awr rhwng darpariaeth MCS a gofal plant yn dibynnu ar y ddarpariaeth feithrin a gynigir ar hyn o bryd gan yr awdurdod lleol neu, lle bo'n berthnasol, yr ysgol unigol. Ond bydd yn cynnwys o leiaf 10 awr o MCS, ac ni all fod yn fwy na chyfanswm o 30 awr o Ddarpariaeth MCS a gofal plant.
- 8.6 Y tu allan i'r tymor ysgol, ni fydd darpariaeth MCS ar gael a bydd 9 wythnos lle bydd gan rieni sy'n gweithio hawl i 30 awr o ofal plant. Bydd hwn yn cael ei ddarparu mewn lleoliadau gofal plant nas cynhelir yn unig, megis meithrinfeydd dydd preifat, gwarchodwyr plant, clybiau gofal plant y tu allan i oriau ysgol a gofal sesiynol.

Rhieni nad ydynt yn defnyddio darpariaeth Meithrin y Cyfnod Sylfaen

- 8.7 Nid oes yn rhaid i rieni fod yn defnyddio darpariaeth MCS fel un o'r rhagofynion ar gyfer cael mynediad at elfen gofal plant y Cynnig Gofal Plant, ond dylid eu hannog i wneud hynny. Hefyd, fel y pwysleisiwyd yn y canllaw hwn, dylai'r awdurdodau lleol sicrhau bod darpariaeth MCS mor hyblyg a hygyrch â phosibl er mwyn sicrhau bod teuluoedd yn gallu manteisio ar ddwy elfen y Cynnig.
- 8.8 Os nad yw rhiant yn defnyddio darpariaeth MCS, bydd gan y rhiant yr hawl o hyd i'r elfen gofal plant o'r Cynnig yn ystod y tymor ysgol (39 wythnos y

flwyddyn) ac i 30 awr o ofal plant a ariennir gan y Llywodraeth am y 9 wythnos sy'n weddill. Ni ellir ar unrhyw gyfrif cyfnewid oriau o ddarpariaeth MCS am oriau o ofal plant, ac ni ddylai unrhyw blentyn dderbyn mwy na chyfanswm o 30 awr o ddarpariaeth feithrin a gofal plant yr wythnos.

- 8.9 I gael rhagor o wybodaeth am y Cynnig Gofal Plant, ewch i wefan Llywodraeth Cymru yn <https://gov.wales/topics/people-and-communities/people/children-and-young-people/childcare/talk-childcare/?lang=cy>.

Ceir hefyd ganllawiau (<https://gov.wales/docs/dsjlg/publications/cyp/180702-early-implementer-september-2018-cy.pdf>) ar y Cynnig Gofal Plant.

9. Y camau nesaf

- 9.1 Bydd disgwyl i awdurdodau lleol gadw at y canllawiau hyn hyd nes y nodir yn wahanol.
- 9.2 Gwyddom fod nifer o elfennau darpariaeth MCS yn gweithio'n dda, a rhaid i ni sicrhau ein bod yn diogelu'r elfennau hyn sy'n hollbwysig ar gyfer ei huniondeb a'i haddysgeg. Fodd bynnag, rydym hefyd yn gwybod ar ôl siarad â nifer o rieni, darparwyr ac awdurdodau lleol bod rhai elfennau nad ydynt yn gweithio i bob plentyn, rhiant neu ddarparwr.
- 9.3 Mae tystiolaeth o'r broses o weithredu'r cwricwlwm newydd, o ganfyddiadau'r gwerthusiad o'r Cyfnod Sylfaen a'r Cynllun Peilot Hyblygrwydd y Cyfnod Sylfaen, ac o'r gwaith o weithredu'r Cynnig Gofal Plant a chanlyniad ymgyrch #trafodgofalplant, wedi dangos bod angen ailasesu darpariaeth MCS gan ganolbwyntio mwy ar hyblygrwydd a hygyrchedd, fel y nodir yn y canllaw hwn.
- 9.4 Dylai awdurdodau lleol fynd ati gyda'u partneriaid i edrych ar y ffordd y maent yn comisiynu ac yn darparu'r ddarpariaeth MCS mewn lleoliadau a gynhelir a lleoliadau nas cynhelir ac ystyried pa mor hygyrch ydyw i deuluoedd, y staff sy'n ymwneud ag ef a'i ansawdd er mwyn i sicrhau'r gwerth mwyaf ohoni. Dylai darpariaeth MCS gael ei gynneg mewn unrhyw leoliad sy'n gallu dangos yr ansawdd angenrheidiol ac ni ddylai gael ei ddarparu mewn lleoliadau penodol yn unig sy'n golygu nad yw teuluoedd yn gallu cael mynediad ato. Dylid cynnig dewis o leoliadau i rieni a fyddai'n gweddu i'w hamgylchiadau ac yn bodloni eu hanghenion o ran gofal plant. Dylai awdurdodau lleol drafod â'u rhanddeiliaid, gan gynnwys teuluoedd a darparwyr, a chynllunio sut y gallent godi ymwybyddiaeth a gweithio'n fwy hyblyg â'r sector i gyflawni hyn yn lleol.
- 9.5 Yn ogystal, dylai awdurdodau lleol sicrhau synergedd rhwng darpariaeth MCS a gofal plant cofleidiol, gan ganolbwynti'n arbennig ar sut y gellir sicrhau bod rhieni cymwys yn defnyddio 30 awr llawn y Cynnig Gofal Plant.
- 9.6 Bydd Llywodraeth Cymru'n disgwyl gweld tystiolaeth bod awdurdodau lleol yn cynllunio i roi'r canllawiau hyn ar waith. Byddwn yn cysylltu â nhw i ddysgu mwy am eu cynlluniau a'u hamserlenni ac yn gweithio gyda nhw i gynnig cymorth drwy ddarparu enghreifftiau o arfer da a modelau amgen ac arloesol ar draws Cymru a thu hwnt.